BBC

# Canllawiau Etholiad 2021

**Ymgyrchoedd Etholiadol ar gyfer:**
**Senedd yr Alban**
**Senedd Cymru**
**Awdurdod Llundain Fwyaf (gan gynnwys Maer Llundain)**
**Llywodraeth Leol mewn rhannau o Loegr (y tu allan i ardal Awdurdod Llundain Fwyaf)**
**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr**

**Diwrnod Pleidleisio: 6ed Mai 2021**


1. Cyfnod Etholiad 2
   1.1 Cyfnod Etholiad a pha bryd y daw Canllawiau'r Etholiad a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym 2
   1.2 Etholiadau 3
   1.3 Y Canllawiau 4
   1.4 I bwy mae'r Canllawaiau yn berthnasol 5
2. Crynodeb o'r materion a'r atgyfeiriadau gorfodol 5
   2.1 Yn ystod y Cyfnod Etholiad: 5
   2.2 Diwrnod Pleidleisio (00.30 – 22.00) 6
3. Didueddrwydd Dyladwy 7
   3.1 Sylw o'r Pleidiau a'r Ymgeiswyr 7
   3.2 Didueddrwydd mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein 7
   3.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill, cyrff etholedig eraill a'r pandemig coronafeirws yn ystod y Cyfnod Etholiad 8
   3.4 Trefn y Pleidiau 9
   3.5 Eitemau lle nad oes angen, o bosib, cyfraniadau wrth bleidiau neu ymgeiswyr eraill 9
4. Tegwch i Ymgeiswyr – Cod Ymarfer 10
   4.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (Etholaethau, Wardiau neu ardaloedd yr Heddlu) 10
   4.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau sy'n ymwneud â materion, dadleuon ehangach a rhaglenni ffonio-i-mewn 11
   4.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg 12
5. Cyfraniadau Ar-lein, Cyfryngau Cymdeithasol a Chynulleidfaoedd 12
   5.1 Twyll-wybodaeth 12
   5.2 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol 13
   5.3 Cyfraniadau'r Gynulleidfa 13
   5.4 Vox Pops 14
   5.5 Rhaglenni Cynulleidfaol 14
   5.6 Deunydd wrth drydydd partion neu ymgeiswyr 14
6. Polau piniwn a dulliau eraill o gasglu barn 15
   6.1 Gohebu am Bolau Piniwn 15
   6.2 Comisiynu Polau Piniwn 16
   6.3 Pleidleisio SMS/Ar-lein 16
7. Cyfweliadau Arweinwyr y Pleidiau 17
8. Diwrnod Pleidleisio 17
9. Cwynion 17

## 1. Cyfnod Etholiad

### 1.1 Cyfnod Etholiad a pha bryd y daw Canllawiau'r Etholiad a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym

Ar gyfer yr etholiadau sy'n cael eu cynnal ar 6ed Mai 2021, nid yw cyfnodau'r etholiadau i gyd yn dechrau ar yr un diwrnod. Mae'r canllawiau hyn yn weithredol o ddiwrnod cyntaf y cyfnod etholiadol cynharaf ar gyfer allbwn y DU gyfan, sef

**Dydd Llun 22ain Mawrth 2021 am 00.01**

ond lle gall yr amrywiadau fod yn berthnasol yn benodol, mae cyngor manwl ar gael wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. Mewn unrhyw achos, mae ymgyrchu etholiadol yn debygol o ddechrau cyn y cyfnod etholiadol ffurfiol, a dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn sensitif o'r angen i roi gofal arbennig yn arwain at gyfnod yr Etholiad. Unwaith eto, mae cyngor ar gael wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Sylwer: oherwydd y pandemig, gall y canllawiau hyn dal newid, gan gynnwys dyddiadau cyfnodau etholiadol, diwrnod pleidleisio, pa etholiadau sy'n digwydd a nifer y seddi. Defnyddiwch y fersiwn ar-lein, a fydd yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen.

**Mae cyfnod etholiadol pob un o'r etholiadau yn dechrau fel a ganlyn:**

**Awdurdod Llundain Fwyaf (gan gynnwys Maer Llundain):**
**Llun 22nd Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| **Senedd Cymru** | **Mercher 24ain Mawrth 2021** |
| **Senedd yr Alban:** | **Iau 25ain Mawrth 2021** |
| **Llywodraeth Lleol yn Lloegr** | **Llun 29ain Mawrth 2021** |
| **Comisiynwyr Heddlu a Throseddu*** | **Llun 29ain Mawrth 2021** |

**Bydd y Canllawiau dal yn weithredol ar gyfer pob etholiad nes i'r gorsafoedd pleidleisio gau am 22.00 ar ddydd Iau 6ed Mai.**

Nid oes unrhyw wahaniaeth ffurfiol yn ystod y cyfnodau etholiadol rhwng y dyddiau cyn ac ar ôl i'r enwebiadau gau. Mae'r enwebiadau yn cau ar ddiwrnodau gwahanol mewn gwahanol etholiadau hefyd:

30ain Mawrth yn Awdurdod Llundain Fwyaf,

31ain Mawrth yn yr Alban,

8fed Ebrill yng Nghymru a Lloegr (y tu allan i Awdurdod Llundain Fwyaf).

***yn Essex, Gogledd Swydd Efrog, Swydd Northampton a Swydd Stafford, mae comisiynwyr hefyd yn gyfrifol am Wasanaethau Tân ac Achub.**

Nid oes unrhyw etholiadau yng Ngogledd Iwerddon.

## 1.2 Etholiadau

**Senedd yr Alban**

Mae'r Etholiad yn cael ei chynnal ar sail System Aelodau Ychwanegol gyda 73 o etholaethau aelodau unigol yn ogystal ag wyth rhanbarth yn ethol saith ASA ychwanegol yr un drwy restr pleidiau.

**Senedd Cymru**

Mae'r Etholiad yn cael ei chynnal ar sail System Aelodau Ychwanegol, gyda 40 o etholaethau aelodau unigol yn ogystal â phum rhanbarth yn ethol pedwar AS ychwanegol yr un drwy restr pleidiau.

**Awdurdod Llundain Fwyaf**

Bydd yr etholiad ar gyfer Maer Llundain yn cael ei chynnal yn defnyddio'r system Bleidlais Atodol. Mae'r etholiad ar gyfer Cynulliad Llundain yn defnyddio'r System Aelodau Ychwanegol, gan ethol 14 o aelodau etholaethol ac 11 aelod Llundain gyfan – cyfanswm o 25 o seddi.

**Llywodraeth Leol mewn 143 o gynghorau yn Lloegr (y tu allan i Awdurdod Llundain Fwyaf)**

- 21 o Gynghorau Sir
- 35 o Fwrdeistrefi Metropolitanaidd
- 28 o Gynghorau Unedol
- 59 o Gynghorau Dosbarth

Yn ogystal â:

- 7 o Feiri Awdurdodau Cyfun
- 5 o Feiri Awdurdodau Unigol

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr)**

Yn Lloegr (y tu allan i Lundain, Manceinion a Gorllewin Swydd Efrog) bydd etholiadau sy'n defnyddio'r system Bleidlais Atodol yn cael eu cynnal mewn 35 o ardaloedd daearyddol yr heddlu.

Yng Nghymru, bydd etholiadau sy'n defnyddio'r system Bleidlais Atodol yn cael eu cynnal ym mhob un o 4 ardaloedd yr heddlu.

Nid oes etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn yr Alban, Llundain, Manceinion a Gorllewin Swydd Efrog.

**Am wybodaeth bellach sy'n benodol i bob etholiad, cyfeiriwch at yr Atodiadau.**

### 1.3 Y Canllawiau

Ymgyrchoedd etholiadol yw'r maes darlledu lle craffir ar ymrwymiad y BBC i ddidueddrwydd dyladwy fwyaf manwl.

Bwriad y Canllawiau hyn yw cynnig fframwaith i newyddiadurwyr er mwyn:

• gallu gweithredu mewn amgylchedd mor rhydd a chreadigol â phosib,

• cyflwyno adroddiadau diduedd ac annibynnol i gynulleidfaoedd o'r ymgyrch, gan roi sylw teg a chraffu trylwyr o bolisïau ac ymgyrchoedd yr holl bleidiau.

**Mae rheidrwydd cyfreithiol ar y BBC hefyd i fabwysiadu Cod Ymarfer mewn perthynas â "chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau am yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau perthnasol yn ystod cyfnod yr etholiad". Cyflawnir y rhwymedigaeth hon gan Adran 4 o'r Canllawiau hyn.**

Mae'n ofynnol i'r BBC yn ogystal, o dan delerau ei Siartr a'i Gytundeb, i sicrhau yr ymdrinnir â materion gwleidyddol gyda chywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy. Mae'r Canllawiau Etholiadol hyn yn cyd-fynd â'r Canllawiau Golygyddol (Pennod 4, "Didueddrwydd" a Phennod 10, "Gwleidyddiaeth, Polisi Cyhoeddus a Phleidleisio").

Dylent, yn benodol, gael eu darllen ar y cyd ag adran "Etholiadau a Refferenda'r DU" ym Mhennod 10. Mae'n cynnwys y canlynol:

***10.3.15*** *Dylai'r BBC wneud penderfyniadau golygyddol ynghylch y sylw sy'n cael ei roi i ymgyrchoedd, a gallu eu hamddiffyn, ar y sail eu bod yn rhesymol ac wedi'u gwneud yn ofalus, gyda didueddrwydd dyladwy. Mae'n bwysig bod barn am yr hyn yw newyddion yn parhau'n sail i benderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni seiliedig ar newyddion a bod y farn honno ar amser etholiad yn cael ei ffurfio o fewn fframwaith o drafodaeth ddemocrataidd. Dylai'r fframwaith hwnnw sicrhau bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar gyfleu, archwilio a herio safbwyntiau a pholisïau'r holl bleidiau perthnasol. Mewn darllediadau ar gyfer y DU gyfan, rhaid ystyried ac adlewyrchu'r gwahanol strwythurau gwleidyddol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.*

***10.3.16*** *Bydd y ffordd i sicrhau didueddrwydd dyladwy rhwng pleidiau yn amrywio, yn ôl y fformat, yr allbwn a'r llwyfan. Bydd penderfynu'r priod lefelau o sylw i wahanol bleidiau gwleidyddol, sydd â lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn galw'n bennaf am farn olygyddol dda a diduedd, yn hytrach na defnyddio fformiwlâu mathemategol. Ond rhaid i gynhyrchwyr cynnwys*

*gymryd cyfrifoldeb am sicrhau didueddrwydd dyladwy yn eu hallbwn eu hunain heb ddibynnu o reidrwydd ar gynnwys neu wasanaethau eraill y BBC.*

**Mae'r Canllawiau ar gael yn gyhoeddus a gall y BBC ddisgwyl bod yn atebol am eu gweithredu yn ystod yr ymgyrch.**

**Mae allbwn y BBC yn ystod cyfnod etholiadol hefyd yn amodol ar Adran 5 a 6 o God Ofcom (ac eithrio adrannau 6.8 – 6.12) a'r Canllawiau cysylltiedig sy'n gyson â chadw at y Canllawiau hyn.**

https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-five-due-impartiality-accuracy

https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-six-elections-referendums

### 1.4 I bwy mae'r Canllawiau yn berthnasol

Cyfrifoldeb pob golygydd yw sicrhau bod eu cynhyrchwyr cynnwys yn ymwybodol o sut mae'r Canllawiau yn berthnasol i'w hallbwn.

Mae'n rhaid i bob rhaglen sydd ddim fel arfer yn ymdrin â phynciau gwleidyddol neu'n gwahodd gwleidyddion i gymryd rhan, ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth ymlaen llaw cyn gwahodd gwleidydd, ymgeisydd neu unrhyw un sydd wedi cymryd safbwynt gwleidyddol amlwg i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae hyn yn berthnasol os yw'r cyfraniad arfaethedig yn 'wleidyddol' neu beidio.

Mae'r Atodiadau yn nodi gwybodaeth sy'n benodol i'r gwahanol etholiadau a gwahanol rannau o'r DU.

Dylai pob rhaglen, cyfres, gwefan neu sianel ystyried lleoliad y gynulleidfa arfaethedig wrth roi'r Canllawiau hyn ar waith.

Mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw gynnwys a fwriadwyd ar gyfer cynulleidfaoedd Prydain Fawr, sy'n ymdrin ag unrhyw agwedd ar yr etholiadau.

## 2. Crynodeb o'r materion a'r atgyfeirio gorfodol

### 2.1 Yn ystod cyfnod yr etholiad:

- **Lle na fyddai cynnwys fel arfer yn cynnwys materion gwleidyddol, barn wleidyddol neu wleidyddion (er enghraifft, chwaraeon, sioeau cwis/panel, adloniant ffeithiol) rhaid i gynhyrchwyr cynnwys ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth ymlaen llaw cyn gwahodd gwleidydd (neu unrhyw un sydd wedi cymryd safbwynt gwleidyddol amlwg) i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae hyn yn berthnasol os yw eu cyfraniad arfaethedig yn 'wleidyddol' neu beidio.***

- **Dylai pob cais am gyfweliadau neu fwriad i bortreadu arweinwyr pleidiau'r DU gael eu cyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn gofyn i'r pleidiau. Yn y cenhedloedd, dylai ceisiadau am arweinwyr y pleidiau hefyd gael eu cyfeirio at Benaethiaid Newyddion priodol y cenhedloedd. Dylai ceisiadau am gyfweliadau o'r fath gael eu cyfeirio hefyd cyn cael eu derbyn.**

- **Mae'n rhaid i unrhyw fwriad i ddefnyddio cyfraniad gan ymgeisydd heb roi cyfle i unrhyw blaid neu ymgeisydd arall wneud sylwadau nac ymateb gael eu cyfeirio at ffigwr golygyddol uwch a'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. (gweler cyd-destun 3.5).**

- **Ni fydd y BBC yn comisiynu polau piniwn o fwriad pleidleisio i'w cyhoeddi yn ystod yr ymgyrch.**

- **Mae'n rhaid i unrhyw fwriad i gomisiynu pôl piniwn ar wleidyddiaeth neu unrhyw fater arall o bolisi cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.***

- **Ni fydd unrhyw bleidleisiau (ar-lein, SMS / testun na chyfryngau cymdeithasol) sy'n ceisio mesur cefnogaeth i blaid, ymgeisydd neu fater polisi gwleidyddol y pleidiau.**

- **Rhaid trafod unrhyw fwriad i gynnal pleidlais (ar-lein, testun neu gyfryngau cymdeithasol) ar unrhyw fater gwleidyddol a allai effeithio ar unrhyw un o'r etholiadau gyda'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at ffigwr golygyddol uwch yn yr adran berthnasol ac ITACU.**

- **Ni fydd y BBC yn darlledu nac yn cyhoeddi niferoedd e-byst, negeseuon testun na deunydd cyfathrebu eraill a dderbynnir ar y naill ochr i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch.**

*** mae cyfeirio hefyd yn orfodol y tu allan i gyfnodau etholiadol.**

## 2.2 Diwrnod pleidleisio (00.30 – 22.00)

- **Ni ddylid cyhoeddi unrhyw bôl piniwn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r etholiad.**

- **Ni fydd unrhyw faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymgyrchoedd etholiadol yn cael sylw ar unrhyw un o wasanaethau neu gyfryngau cymdeithasol y BBC.**

- **Mae'n drosedd cyhoeddi unrhyw beth ynglŷn â'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiad hwnnw, yn seiliedig ar wybodaeth gan / neu a gymerwyd gan bleidleiswyr ar ôl iddynt bleidleisio.**

## 3 Didueddrwydd Dyledus

### 3.1 Sylw i Bleidiau ac Ymgeiswyr

I gyflawni didueddrwydd dyladwy, mae'n rhaid i bob bwletin, rhaglen neu gyfres o raglenni, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol, ar gyfer pob etholiad, sicrhau bod y pleidiau (a lle bo'n berthnasol, ymgeiswyr annibynnol) yn cael sylw cymesur dros gyfnod priodol o amser.

Dylai pennu lefelau priodol y sylw roi ystyriaeth i lefelau cefnogaeth etholiadol y gorffennol a'r presennol (gweler Atodiadau a Chrynodeb Ofcom https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

Cefnogaeth etholiadol mewn etholiadau cyfatebol blaenorol (h.y. etholiadau lleol Lloegr yn 2019 a 2018, etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn 2016 a 2012 ac etholiadau Senedd yr Alban a'r Cynulliad yng Nghymru yn 2016 a 2011) yw'r man cychwyn ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn. Serch hynny, dylid ystyried ffactorau eraill lle bo'n briodol, gan gynnwys tystiolaeth o'r newid yn lefelau'r gefnogaeth mewn etholiadau mwy diweddar, newid mewn amgylchiadau gwleidyddol (e.e. pleidiau newydd neu raniadau o fewn pleidiau) yn ogystal â thystiolaeth arall o gefnogaeth gyfredol. Gall nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid hefyd fod yn ffactor.

### 3.2 Didueddrwydd mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein

Dylai rhaglenni cylchgrawn newyddion dyddiol, fel arfer, sicrhau sylw cymesur a phriodol yn ystod pob wythnos o'r ymgyrch.

Mae hynny'n golygu bod pob cyfres (e.e. sioe 'drive time' ar radio) yn gyfrifol am gyflawni ei didueddrwydd ei hun o fewn yr wythnos ac ni all ddibynnu ar wasanaethau eraill ar wahanol adegau o'r dydd (e.e sioe frecwast) i wneud hynny. Nid yw hynny'n atal rhaglenni, mewn amgylchiadau penodol, rhag cydweithio i drefnu sylw ar y cyd, a thrwy hynny gyflawni didueddrwydd dyladwy ar draws yr orsaf neu sianel. Ond mae angen cyfeirio at drefniant o'r fath yn glir, ac fel arfer, dylid ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Dylai cyfres o raglenni sicrhau nad yw penodau unigol yn rhy anghytbwys. Efallai y bydd dyddiau, yn anochel, pan fydd un blaid yn dominyddu'r agenda newyddion e.e. pan fydd maniffesto plaid yn cael ei lansio, ond dylid cymryd gofal i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i lansiadau'r maniffestos eraill neu i bleidiau ac ymgeiswyr eraill ar y dyddiau perthnasol a bod cyfeirio priodol yn ôl ac ymlaen.

Dylai rhaglenni wythnosol, neu gyfresi parhaus o fewn rhaglenni dyddiol, sy'n canolbwyntio ar un blaid neu'r llall, gyfeirio yn ôl ac ymlaen, er mwyn sicrhau ei bod yn glir i'r gynulleidfa bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei ddatblygu dros amser. Yn yr enghreifftiau hyn, dylai didueddrwydd dyladwy gael ei gyflawni yn ystod yr ymgyrch.

Mae'r un canllawiau ar gyfer rhaglenni yn gymwys i gynnwys Golygyddol y BBC ar holl safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain yn gymwys i gynnwys sain a fideo yn ogystal â chynnwys testun e.e. blogiau, podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal â sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partïon (gweler adran 5 isod).

Dywed y Canllawiau Golygyddol (**4.3.12**) *"ni ddylem gymryd yn awtomatig fod cyfranwyr o sefydliadau eraill (fel academyddion, newyddiadurwyr, ymchwilwyr a chynrychiolwyr elusennau a melinau trafod) yn ddiduedd. Dylid darparu gwybodaeth briodol am eu cysylltiadau, eu cyllid a'u safbwyntiau penodol i'r gynulleidfa, pan fo hynny'n berthnasol i'r cyd-destun".*

Yng nghyd-destun yr etholiadau hyn, bydd angen i gynhyrchwyr cynnwys gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfranwyr yn cael eu disgrifio'n briodol, a'u bod wedi ystyried, er enghraifft, sylwadau a wnaed ganddynt ar gyfryngau cymdeithasol, sut mae eu sefydliadau'n cael eu hariannu a natur yr ymchwil a ddyfynnir. Wrth ohebu, yn benodol, o ran sylw'r wasg i'r ymgyrch ac mewn adolygiadau papurau newydd, dylent hefyd ystyried unrhyw safbwynt golygyddol goddrychol perthnasol.

Rhaid i unrhyw raglen neu gynnwys sy'n rhoi sylw i unrhyw un o'r etholiadau gyflawni didueddrwydd dyladwy yn gyffredinol ymhlith pleidiau yn ystod yr ymgyrch gyfan.

Dylai unrhyw un sydd ag amheuaeth ynglŷn â sut mae hyn yn berthnasol i'w cynnwys eu hunain gysylltu â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, am gyngor.

### 3.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill, cyrff etholedig eraill a'r pandemig coronafeirws yn ystod y Cyfnod Etholiad

Nid yw'r etholiadau yn cael eu cynnal mewn gwagle a bydd cyrff etholedig eraill yn parhau â'u gweithgaredd arferol yn ystod yr ymgyrch. Mae angen i gynhyrchwyr cynnwys gydymffurfio â gofyniad cyffredinol cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy, gan fod yn ymwybodol o ddylanwad posib unrhyw sylw gwleidyddol arall ar ymgyrchoedd yr etholiad.

Mae hyn yn berthnasol i'r holl ohebu Seneddol yn ystod yr ymgyrchoedd: bydd rhywfaint o fusnes cynghorau hefyd yn parhau yn ystod cyfnod yr etholiad. Dylid parhau i roi sylw i'r rhain yn y ffordd arferol, er bod yn rhaid gohebu'n ofalus ar unrhyw faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r etholiadau ledled Prydain Fawr ac sy'n cael eu trafod mewn Senedd neu gynghorau, er mwyn cynnal didueddrwydd dyladwy.

Mae angen i'r holl gynhyrchwyr cynnwys ystyried pa faterion sydd o fewn cylch gwaith y cyrff gwahanol a sicrhau ei fod yn glir i'r gynulleidfa pan fydd y straeon yn berthnasol i etholiad. Dylent hefyd fod yn effro i wleidyddion pleidiau eraill, gan gynnwys gweinidogion, gweinidogion yr wrthblaid a llefarwyr eraill y pleidiau ac AS yn San Steffan, nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r etholiadau, yn ymyrryd mewn materion sy'n berthnasol i unrhyw un o'r etholiadau a sicrhau bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal. Gall rhai aelodau o gyrff etholedig eraill hefyd fod yn ymgeiswyr yn yr

etholiadau hyn; dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes mantais annheg yn yr ymgyrchoedd etholiadol yn deillio o'u rolau gwleidyddol eraill.

Mae’r pandemig coronafeirws yn golygu y bydd angen i gynhyrchwyr cynnwys, ar adegau, gymryd gofal arbennig wrth gyflawni didueddrwydd priodol o ran yr etholiad tra hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn glir ac yn gywir. Bydd angen i'r penderfyniadau hyn hefyd ystyried y ffordd y mae iechyd a materion eraill sy'n ymwneud â'r pandemig wedi’u datganoli yn y cenhedloedd.

Sylwer: cyhoeddodd Ofcom nodyn i ddarlledwyr (8fed Mawrth) ynglŷn â “Rhaglenni sy’n ymwneud â’r Coronafeirws”:

Wrth i ni agosáu at yr etholiadau gwahanol sy’n cael eu cynnal ym mis Mai 2021, mae Ofcom yn cydnabod, o ystyried pandemig Coronafeirws, y gellid cael sefyllfaoedd yn ystod cyfnod yr amrywiol etholiadau hynny, lle gallai fod yn ofynnol i wleidyddion, gan gynnwys y rhai a allai hefyd fod yn ymgeiswyr yn yr etholiadau sydd ar y gweill, ddarparu gwybodaeth i’r cyhoedd am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfyngiadau Coronafeirws ar draws gwahanol genhedloedd y DU. Mae Ofcom hefyd yn cydnabod, o ystyried budd y cyhoedd, byddai darlledwyr am gynnwys gwybodaeth o'r fath mewn rhaglenni ac y byddai cynulleidfaoedd am ei chlywed. Yn yr amgylchiadau hyn, hoffem atgoffa darlledwyr o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod eu rhaglenni'n cydymffurfio â darpariaethau didueddrwydd dyladwy y Cod.

Lle ceir straeon newyddion eraill o bwys, mae angen gofal i sicrhau bod unrhyw elfen wleidyddol yn cael sylw cynhwysfawr, ond ei bod hefyd yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn gyfnod etholiad. Bydd sut y cyflawnir hynny’n dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos. Er enghraifft, lle ceir straeon mawr y tu allan i’r gystadleuaeth o fewn pleidiau, mae’n rhaid sicrhau didueddrwydd dyladwy drwy roi mwy o amser i’r gwleidyddion hynny sydd fwyaf cysylltiedig â’r stori, drwy adrodd datganiadau’n llawn a rhoi gwybodaeth ffeithiol i'r gynulleidfa ac, o bryd i’w gilydd, adlewyrchu ar ddadleuon mewnol brwd oddi mewn i’r pleidiau.

### 3.4 Trefn y Pleidiau

Fel arfer, dylai'r drefn y mae pleidiau’n ymddangos mewn pecynnau neu'n cael eu cyflwyno mewn trafodaethau gael ei llywio gan yr elfen olygyddol. Serch hynny, dylai gwneuthurwyr rhaglenni gymryd gofal i sicrhau eu bod yn amrywio'r drefn hon, lle bo’n briodol, fel na fydd unrhyw batrwm sefydlog yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgyrch. Weithiau, y ffordd orau o gael tegwch – er enghraifft – mewn dadleuon – yw drwy dynnu enw.

### 3.5 Eitemau lle nad oes angen, o bosib, cyfraniadau gan bleidiau neu ymgeiswyr eraill

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall sylwadau gan ymgeiswyr sefyll ar eu traed eu hunain, heb unrhyw gyfraniad gwleidyddol arall, lle gallai gwneud hynny ymddangos yn ansensitif neu edrych fel syrcas cyfryngau. Gallai hyn gynnwys cyfweliadau am drasiedi bersonol, trychineb cyhoeddus, neu lle mae’r person dan sylw yn llygad dyst i ddigwyddiad yn y newyddion. Rhaid cyfeirio unrhyw fwriad i ddefnyddio sylw yn y ffordd hon at ffigwr golygyddol uwch a’r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

## 4 Tegwch i Ymgeiswyr - Cod Ymarfer

Sylwer: O ran y diffiniad o "ymgeiswyr" yn ogystal â "rhoi sedd wag i rywun", cyhoeddodd Ofcom ganllawiau newydd ar 11eg Ionawr 2021: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/210827/Note-to-broadcasters-Election-programming-May-2021-elections.pdf

### 4.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (Etholaethau, Wardiau neu ardaloedd yr Heddlu)

**Bwriad y canllawiau hyn yw annog trafodaeth frwd a rhoi proffil uwch i ymgeiswyr yn gyffredinol, heb roi mantais annheg i un ymgeisydd neu blaid ar draul un arall.**

Ni all ymgeiswyr neu bleidiau sy'n gwrthod cymryd rhan mewn adroddiadau neu ddadleuon yn yr etholaeth/ward/ardal, roi feto yn effeithiol dros sylw o'r fath.

Serch hynny, nid yw hynny'n gwanhau mewn unrhyw ffordd rwymedigaethau'r BBC o ran tegwch wrth sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybod am holl brif elfennau'r ddadl: dylid gofyn am gyngor pellach y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth mewn amgylchiadau o'r fath.

Gall rhaglenni benderfynu defnyddio naill ai ymgeiswyr neu eu cynrychiolwyr mewn eitemau. Ond os gwahoddir ymgeisydd i gymryd rhan, dylai'r cyfranwyr eraill, lle bo'n bosibl, fod yn ymgeiswyr hefyd (gweler isod 4.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg). Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad yw ymgeisydd ar gael, gellir cynnig y cyfle i gynrychiolydd addas o fewn y blaid neu rywun arall oddi fewn i'r ardal etholiadol (e.e. swyddog neu asiant y blaid), ond fel arfer, dylid ei gwneud yn glir i'r gynulleidfa y gwahoddwyd yr ymgeisydd coll a pham nad oeddent yn gallu cymryd rhan. Os yw plaid neu ymgeisydd yn gwrthod argymell cynrychiolydd neu enwebu rhywun mewn ffordd a allai achosi annhegwch i ymgeiswyr eraill, gall yr eitem/rhaglen fynd yn ei blaen hebddynt.

Dylai adroddiadau neu ddadleuon am ardal etholiadol benodol, fel ward cyngor, etholaeth neu ardal yr heddlu, roi pwys dyladwy i ymgeiswyr sydd wedi profi cefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno (naill ai drwy fod yn ymgeisydd eu hunain - er enghraifft, ymgeiswyr annibynnol - neu eu plaid). Mae hyn yn golygu, os bydd unrhyw ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ardal etholiadol penodol, yna dylid cynnig cyfle i'r ymgeiswyr eraill gymryd rhan hefyd, neu gael cyfle tebyg ar draws cyfres o adroddiadau.

Mae dal rhaid i ymgeiswyr neu bleidiau sydd heb ddangos bod ganddynt gefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno gael cynnig sylw cymesur. Mater golygyddol yw sut y gwneir hynny, ond dylai'r canlynol gael ei ystyried fan lleiaf:

Dylai adroddiadau ac eitemau byr, gan gynnwys y rheini ar-lein, sy'n cyfeirio'n unig at rai o'r ymgeiswyr mewn ardal etholiadol (neu ardaloedd) gyfeirio hefyd at restr ar-lein o'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau sy'n sefyll (neu, os yw'n digwydd cyn i'r enwebiadau gau, rhestr o'r ymgeiswyr hyd yma). Os yw adroddiad o'r

fath yn cael ei ddarlledu sawl gwaith ar yr un sianel neu orsaf, dylid cyfeirio at y rhestr ar-lein o ymgeiswyr bob tro, ac o leiaf unwaith, dylai'r rhestr ymddangos yn weledol a/neu ar lafar.

Ar gyfer eitemau neu raglenni hirach, fel dadleuon – os nad yw'r holl ymgeiswyr yn cymryd rhan – (neu lle nad oes rhestr ar-lein ar gael ar gyfer yr ardal etholiadol berthnasol), yna dylid rhestru'r ymgeiswyr, yn weledol a/neu ar lafar, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad at restr gyflawn o ymgeiswyr ar-lein.

Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys sicrhau, yn gyffredinol, na roddir mantais annheg i ymgeiswyr; er enghraifft, dylai gweithredwyr camera fod yn ofalus pan fydd enw ymgeisydd yn cael ei nodi'n amlwg ar bosteri neu *rosettes* etc.

Pam fydd gan ymgeiswyr rolau eraill – gwleidyddol neu beidio - dylid cymryd gofal i sicrhau nad ydynt yn cael mantais annheg yn ystod ymgyrch yr etholiad ar draul ymgeiswyr eraill.

Cyn i'r enwebiadau gau, mae angen i gynhyrchwyr cynnwys sicrhau didueddrwydd dyladwy o ran unrhyw gyfrannwr y mae disgwyl iddo/iddi sefyll fel ymgeisydd.

### 4.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau sy'n ymwneud â materion, dadleuon ehangach a rhaglenni ffonio-i-mewn

Yn ogystal â dadleuon neu eitemau eraill sy'n defnyddio ymgeiswyr o fewn etholaethau, wardiau neu ardaloedd yr heddlu, gall pob math o gynnwys ddefnyddio ystod briodol o ymgeiswyr o wahanol etholaethau neu wardiau i drafod materion etholiadol gyda'i gilydd. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd lle mae'n briodol defnyddio ymgeiswyr a rhai nad ydynt yn ymgeiswyr (er enghraifft, lle nad yw llefarydd plaid yn sefyll, neu mewn dadleuon rhwng arweinwyr pleidiau).

Caniateir cyfeiriadau rhesymol at enghreifftiau lleol mewn etholaeth, ward, neu ardal heddlu, er enghraifft, at ysbytai lleol, ysgolion, enghreifftiau o droseddu etc. ar yr amod nad yw'n arwain at unrhyw annhegwch i ymgeisydd nad yw'n cymryd rhan.

Er mwyn cynnal didueddrwydd dyladwy, dylai'r dewis o ymgeiswyr neu bleidiau a gynrychiolir fod yn briodol i'r eitem. Mater golygyddol yw pwy sy'n cymryd rhan ac ym mha fformat, er enghraifft, mewn dadleuon, cyn belled â bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei arfer yng nghyd-destun cyfnod yr etholiad.

Ar sail olygyddol y dewisir unigolyn i gynrychioli plaid, ond rhaid cymryd gofal yn ystod yr ymgyrch i sicrhau nad oes un ymgeisydd yn cael ei ffafrio'n ormodol ar draul y lleill. Ni ddylai ymgeisydd sy'n cymryd rhan fel llefarydd cenedlaethol gael mantais annheg dros ymgeiswyr eraill wrth drafod materion sy'n uniongyrchol berthnasol i'w hardal etholiadol. Gall hyn olygu eu cynghori ymlaen llaw o rwymedigaethau didueddrwydd dyladwy'r BBC, neu ymyrraeth gyflym gan gyflwynydd rhaglen fyw, neu ei olygu cyn y darllediad, yn ôl yr angen.

Gall ymgeiswyr gael eu hannog i gymryd rhan mewn rhaglenni ffonio-i-mewn ynglŷn â'r etholiad neu faterion etholiadol. Serch hynny, mae'n rhaid gwirio'r sawl sy'n galw i weld os ydynt yn ymgeiswyr, a rhaid iddo fod yn amlwg i'r gynulleidfa eu bod yn siarad nid fel aelodau cyffredin o'r cyhoedd ond fel cyfranwyr ag agenda wleidyddol. Rhaid bod yn ofalus nad yw rhaglenni yn rhoi amlygrwydd gormodol i un blaid dros amser neu ffafriaeth ormodol i un ymgeisydd ar draul y lleill yn yr un ardal etholiadol. Dylid cymryd gofal hefyd - a gofyn am gyngor - mewn perthynas ag unrhyw gyfraniad gan ymgeisydd yn ystod rhaglen ffonio-i-mewn neu raglen debyg nad yw'n ymwneud â'r etholiadau neu faterion gwleidyddol yn fwy cyffredinol.

Sylwer: o ran y diffiniad o "ymgeisydd", mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau newydd.

Dylid gofyn am gyngor y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth ynglŷn â defnyddio ymgeiswyr.

### 4.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg

Mae rhai gwleidyddion yng Nghymru yn ddi-Gymraeg. Os nad yw ymgeisydd yn siarad Cymraeg, gall Radio Cymru a rhaglenni BBC Cymru ar gyfer S4C ddefnyddio ymgeiswyr a chynrychiolwyr eraill y pleidiau neu eilyddion priodol, gan gynnwys mewn rhaglenni am ardaloedd etholiadol penodol.

Ychydig o wleidyddion sy'n siarad Gaeleg. Os na all plaid ddod o hyd i ymgeisydd sy'n siarad Gaeleg, gall BBC Radio nan Gàidheal a rhaglenni BBC Alba ddefnyddio ymgeiswyr a chynrychiolwyr eraill y pleidiau neu eilyddion priodol, gan gynnwys mewn rhaglenni am ardaloedd etholiadol penodol.

## 5. Ar-lein, Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfraniadau'r Gynulleidfa

Bydd yr un canllawiau â rhaglenni (gweler adran 1.3 uchod) yn gymwys i gynnwys Golygyddol y BBC ar safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain yn gymwys i gynnwys sain a fideo yn ogystal â chynnwys testun, e.e. blogiau, podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal ag unrhyw gyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu cysylltu â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partïon.

### 5.1 Twyll-wybodaeth

Mae ymgyrchu digidol a chymdeithasol yn frwydr fawr mewn etholiadau bellach, ac mae'r bygythiad o dwyll-wybodaeth yn chwarae rhan yn y canlyniad yn sylweddol. Yn ganolog i agwedd y BBC tuag at yr etholiad fydd gweithio i hysbysu cynulleidfaoedd am y broses ddemocrataidd a dadlennu newyddion ffug, fel y gallant wneud dewisiadau ar sail tystiolaeth y gallant ymddiried ynddi.

### 5.2 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'n rhaid i staff golygyddol y BBC ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnwys etholiadol osgoi cyfaddawdu ar ddidueddrwydd y BBC na dwyn anfri ar y BBC drwy eu gweithgareddau, fel fynegi eu barn eu hunain (neu gymeradwyo barn eraill) ar faterion gwleidyddol, naill ai ar wefannau personol neu gyfryngau cymdeithasol, e.e. cyfrifon Twitter personol. (gweler y canllawiau diwygiedig: https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidance/individual-use-of-social-media )

### 5.3 Cyfraniadau'r gynulleidfa

Gall cyfraniadau'r gynulleidfa gynnig uniongyrchedd a rhyngweithio i gynnwys y BBC – boed yn ddarlledu neu ar y we. Mae'r cyfraniadau hyn yn mynegi barn ac nid ydynt yn arwydd o'r pwys a roddir ar farn ar un ochr neu'r llall i gwestiwn. Mae'n rhaid i'r deunydd sy'n cael ei ddewis i'w gynnwys gyflawni didueddrwydd dyladwy, nid yn unig yn ôl pwys gweithgaredd y gynulleidfa. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â cheisio cyflawni'r hyn y gellir ei ystyried yn gydbwysedd "artiffisial" drwy roi darlun camarweiniol o'r pwys a roddir ar y farn.

Gall cyfraniadau'r gynulleidfa fod ar ffurf neges destun, cyfryngau cymdeithasol neu e-bost, neu unrhyw fecanwaith rhyngweithiol arall, gan gynnwys "vox pop". Gallant fod yn ddigymell, neu gallant ddeillio o alwad i weithredu, naill ai mewn deunydd darlledu neu ar-lein. Serch hynny, ym mha bynnag ffordd rydym yn eu derbyn, dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn drylwyr ynglŷn â sefydlu gwreiddiau deunyddiau a gynigir fel cyfraniadau'r gynulleidfa a chymryd cyfrifoldeb am eu dilysrwydd. Efallai y bydd angen gwirio bod cyfraniad unigolyn sy'n llygad y cyhoedd, yn ôl pob tebyg, yn ddilys. Pan ddaw cyfraniadau o'r fath gan ymgeiswyr, rhaid nodi hynny'n glir.

Bydd pob tudalen ar y we sy'n annog trafodaeth am yr etholiad yn cael eu cymedroli'n drylwyr i annog ystod eang o safbwyntiau. Dylai'r rhannau hynny o bresenoldeb ar-lein y BBC sydd ddim fel arfer yn ymwneud â materion gwleidyddol ofyn am gyngor y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, cyn gwneud hynny.

Oni bai eu bod yn cynnal dadleuon etholiadol arbennig, dylai safleoedd nad ydynt yn rhai newyddion gyfeirio defnyddwyr sydd eisiau trafod yr etholiad i rannau priodol o'r safle newyddion fel blogiau gwleidyddol neu erthyglau newyddion perthnasol. Mae'n rhaid i holl rannau bbc.co.uk sy'n trafod yr etholiad gael prosesau cymedroli, hidlo ac uwchgyfeirio yn eu lle.

Bydd rhaid i newyddiadurwyr a chymedrolwyr wneud penderfyniad anodd rhwng sylwadau sy'n cyfrif fel dadl danbaid a chamdriniaeth bersonol. Y rheol fel arfer yw os na fyddem yn ei ddarlledu ar radio neu deledu, ni ddylai fod ar-lein. Bydd prosesau hidlo ar gyfer niwed a thramgwydd a chamdriniaeth bersonol yn gweithredu fel arfer, ond ni ddylid dibynnu arnynt fel ffordd arall o gymedroli'n effeithiol.

Yn ystod Cyfnod yr Etholiad, ni ddylem ddarlledu neu gyhoeddi nifer y cyfraniadau a dderbyniwyd ar unrhyw fater ymgyrchu er mwyn amcangyfrif y gefnogaeth i un ochr neu blaid.

Os caiff cyfraniadau eu golygu oherwydd eu hyd, dylid cymryd gofal i sicrhau bod barn y cyfrannwr yn cael ei chynrychioli'n deg ac yn gywir.

### 5.4 Vox Pops

Gwerth vox pops i raglenni yw caniatáu i wahanol ochr i faterion gael ei mynegi drwy leisiau'r cyhoedd. Ond dylai'r cyd-destun wastad ei gwneud yn glir eu bod yn fynegiant o ddadl, ac nid yn arwydd o'r pwys a roddir ar farn y ddwy ochr. Mae'n rhaid cymryd gofal arbennig gyda vox pops yn ystod ymgyrch etholiadol, er enghraifft, i ystyried y lleoliad y cânt eu recordio, a'u golygu, lle bo'n briodol, mewn ffordd sy'n sicrhau bod ystod o safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu.

Ni ddylai vox pop gael ei gomisiynu'n aml a dylai gael pwrpas golygyddol addas.

### 5.5 Rhaglenni Cynulleidfaol

Dylai unrhyw raglen sy'n ymwneud â'r etholiad ac sy'n bwriadu defnyddio cynulleidfa fyw (naill ai mewn stiwdio neu ar-lein) ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth i drafod dewis y gynulleidfa a sut i gyflawni didueddrwydd dyladwy. Dylai pob gweithdrefn o'r fath allu gwrthsefyll craffu cyhoeddus.

### 5.6 Deunydd wrth bleidiau neu ymgeiswyr

Fel arfer, ni fydd BBC News Online yn cysylltu'n uniongyrchol i ddeunydd sy'n ymwneud â'r etholiad ar wefannau pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr unigol, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol (e.e. ffrae sydd wedi'i achosi gan ffigwr blaenllaw sy'n cyhoeddi polisi ar ei wefan/gwefan sy'n gwrthddweud y maniffesto ar wefan y blaid) ac yna bydd dolen iddi am gyfnod cyfyngedig yn unig gan roi ystyriaeth i unrhyw faterion didueddrwydd.

Bydd BBC News Online yn rhestru dolenni i holl safleoedd y pleidiau sydd ar gael, ar yr amod nad yw'n sylfaen gref dros boeni bod hyn yn torri canllawiau Niwed a Thramgwydd y BBC, Cod Ofcom, neu'r gyfraith e.e. difenwad neu ysgogi casineb hiliol.

https://www.bbc.com/editorialguidelines/guidelines/harm-and-offence

https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-two-harm-offence

Rhaid i unrhyw areithiau neu ddeunydd arall sy'n cael eu cyhoeddi neu eu cyfrannu gan ymgeiswyr neu bleidiau, sy'n cael eu cynnwys yn llawn neu'n rhannol, gael eu dethol ar saith eu gwerth fel stori newyddion, tra'n cofio bod

didueddrwydd dyladwy yn ei gwneud yn ofynnol i ystod briodol o ddeunydd o'r fath gael ei gynnwys.

Dylai cynhyrchwyr rhaglenni fod yn arbennig o effro i ymgyrchoedd sydd wedi'u trefnu neu eu lobio gan bleidiau, grwpiau pwyso, ymgeiswyr neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan. Os ceir amheuaeth bod postio torfol neu waith lobïo arall wedi'i drefnu yn ystod Cyfnod yr Etholiad, efallai y gofynnir i gyfranwyr ddarparu manylion cyswllt at ddibenion gwirio. Mae'n rhaid dechrau strategaeth uwchraddio bbc.co.uk ar unwaith, ac efallai y bydd angen, er enghraifft, rhoi bwrdd neges yn y modd cyn-gymedroli neu ddarllen yn unig.

## 6 Polau piniwn a dulliau eraill o gasglu barn

Dylai Adran 6 o Ganllawiau'r Etholiad, lle bo'n briodol, gael eu darllen ar y cyd â Phennod 10 o'r Canllawiau Golygyddol a Chanllawiau Polisi Golygyddol "Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron a Pholau Gwelltyn", sydd ar gael ar y wefan Polisi Golygyddol.

### 6.1 Gohebu ar Bolau Piniwn

Yn ystod yr ymgyrch, dylai ein hadroddiadau o bolau piniwn pleidleisio ystyried sawl ffactor allweddol:

• maent yn rhan o stori'r ymgyrch, a dylai cynulleidfaoedd, lle bo'n briodol, gael gwybod amdanynt;

• mae cyd-destun yn allweddol, ac mae'n rhaid i ni sicrhau cywirdeb a phriodoldeb yr iaith a ddefnyddir wrth ohebu;

• gall polau piniwn fod yn anghywir – mae yna berygl go iawn wrth adrodd ar y polau hynny sy'n haeddu'r sylw newyddion mwyaf h.y. y rheiny sydd, ar sail un tro, yn dangos symudiad dramatig. Am y rheswm hwnnw, ni ddylem fel arfer seilio stori newyddion ar un pôl piniwn pleidleisio, oni bai bod ei effaith wedi achosi stori newyddion sy'n werth rhoi sylw iddi ar wahân.

• gall fod materion penodol yn ymwneud â chyfeirio at bolau piniwn yn fwy anffurfiol, er enghraifft, yng nghwestiynau cyflwynwyr neu gyfweliadau 2-ffordd y gohebwyr, pan mae cywirdeb dyladwy ac amheuaeth yr un mor bwysig ag mewn adroddiadau sydd wedi'u sgriptio yn fwy ffurfiol; gallai cyfeirio at y traciwr pleidleisio ar-lein, sy'n cynnwys cyd-destun ac esboniad llawnach, fod yn briodol.

• dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw rhagdybiaethau ynglŷn â phleidleisio yn llywio cyfeiriad penderfyniadau golygyddol ehangach yn ormodol.

Felly, mae angen i reolau a chanllawiau cyffredinol ynglŷn ag adrodd ar bolau piniwn gael eu dilyn gyda gofal arbennig yn ystod cyfnod yr etholiad, sef:

• ni ddylai canlyniad pôl piniwn fod yn brif stori neu'n brif bennawd mewn darllediad neu allbwn arall, oni bai ei fod wedi sbarduno stori sy'n teilyngu ei gwneud yn brif stori neu'n brif bennawd a bod angen cyfeirio at ganfyddiadau'r pôl piniwn er mwyn gwneud synnwyr o'r stori;

• peidio â dibynnu ar y dehongliad a roddir gan y sefydliad neu'r cyhoeddiad sydd wedi'i gomisiynu o ganlyniadau'r pôl, ond dod i'ch barn eich hun drwy edrych ar y cwestiynau, y canlyniadau a'r duedd;

• adrodd ar ganfyddiadau polau piniwn o fwriadau pleidleisio yng nghyd-destun tuedd. Gall y duedd gynnwys canlyniadau'r holl bolau piniwn mawr dros gyfnod penodol neu fod yn gyfyngedig i'r newid yn y canfyddiadau gan un cwmni polau piniwn. Dylid trin canlyniadau polau piniwn sy'n herio tueddiadau heb esboniad argyhoeddiadol, gydag amheuaeth a gofal arbennig;

• peidio â defnyddio iaith sy'n rhoi mwy o hygrededd i bolau piniwn nag y maent yn eu haeddu: mae polau piniwn yn "awgrymu" ond byth yn "profi" neu'n "dangos" hyd yn oed;

• dylid hysbysu'r gynulleidfa os yw'r gwahaniaeth a gofnodwyd rhwng dwy blaid arwyddocaol yn llai na'r lwfans ansicrwydd ar gyfer methodoleg y pôl piniwn;

• dweud pa sefydliad gynhaliodd y pôl piniwn a'r sefydliad neu gyhoeddiad a'i gomisiynodd.

Dylid cymryd gofal arbennig wrth adolygu papurau newydd. Ni ddylai canlyniad pôl piniwn fod yn brif eitem mewn adolygiad o'r papurau newydd a dylid wastad defnyddio brawddeg o gyd-destun (e.e: "mae hyn yn anghyson â pholau piniwn eraill yr wythnos hon").

Ar ddiwrnod pleidleisio, ni ellir cyhoeddi unrhyw bôl piniwn ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â'r etholiad nes i'r gorsafoedd pleidleisio gau.

### 6.2 Comisiynu Polau Piniwn

Nid yw'r BBC yn comisiynu polau piniwn o fwriadau pleidleisio yn ystod cyfnodau etholiad. Dywed y Canllawiau Golygyddol "*rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn ar wleidyddiaeth neu unrhyw fater arall o bolisi cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC gael ei gyfeirio am gymeradwyaeth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.*

Rhaid cymryd gofal i sicrhau na ddefnyddir unrhyw bôl piniwn a gomisiynir gan y BBC i awgrymu barn y BBC ar bolisi neu fater penodol. Gall pôl piniwn gael ei gomisiynu i helpu i hysbysu dealltwriaeth y gynulleidfa o bwnc llosg cyfredol, ond ni ddylid ei ddefnyddio i awgrymu ymyrraeth y BBC mewn pwnc llosg cyfredol.

### 6.3 Pleidleisio SMS/Ar-lein

Ni fydd unrhyw bleidleisiau SMS / testun nac ar-lein sy'n ceisio mesur cefnogaeth i blaid, gwleidydd neu fater polisi gwleidyddol y pleidiau yn ystod cyfnod yr etholiad, ac ni ddylid defnyddio dulliau eraill o gyfrif, fel cyfrif nifer y negeseuon testun neu gyfraniadau cyfryngau cymdeithasol, i asesu lefel y gefnogaeth.

Rhaid i gynhyrchwyr sicrhau nad yw pleidleisiau yn cael eu trosi'n rhywbeth y gellid ei ddehongli naill ai fel cynrychiolaeth o farn y cyhoedd yn ei chyfanrwydd, neu'n ganfyddiad o farn y BBC. Rhaid i unrhyw fwriad i gynnal pleidlais ar neges destun neu ar-lein ar unrhyw fater gwleidyddol a allai gael effaith ar unrhyw un o'r etholiadau gael eu trafod gyda'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at ffigwr golygyddol uwch yn yr adran berthnasol ac ITACU.

## 7 Cyfweliadau Arweinwyr y Pleidiau

Rhaid i unrhyw fwriad i gyfweld neu bortreadu arweinwyr y pleidiau gael ei gyfeirio ymlaen llaw at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. Ar gyfer BBC Scotland a BBC Cymru, dylid cyfeirio at y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes perthnasol hefyd o ran arweinwyr y pleidiau yn y cenhedloedd hynny. Rhaid cyfeirio cynigion am gyfweliadau o'r fath gan y pleidiau hefyd cyn y gellir derbyn unrhyw un. Mae hyn ar y cyd â'r cyfeiriad gorfodol a nodir yn y Canllawiau Golygyddol (10.2.2) ac mae'n arbennig o bwysig yn ystod yr ymgyrchoedd etholiadol hyn.

## 8 Diwrnod Pleidleisio

Ni fydd unrhyw sylw yn cael ei roi i unrhyw un o'r ymgyrchoedd etholiadol ar ddiwrnod pleidleisio, o 00.30 nes i'r gorsafoedd pleidleisio gau am 22.00 ar deledu, radio, bbc.co.uk neu ein sianeli swyddogol ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill. Ni fydd yn rhaid i safleoedd ar-lein dynnu adroddiadau archif, ond ni ddylid eu hailgyhoeddi.

Dylid cymryd gofal arbennig hefyd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bersonol ar ddiwrnod pleidleisio.

Yr unig ohebu ar y dydd fydd disgrifiadau ffeithiol heb unrhyw beth y gellid ei ddehongli fel rhywbeth sy'n dylanwadu ar y pleidleisio.

Ni ellir cyhoeddi unrhyw bôl piniwn am unrhyw bwnc sy'n ymwneud â'r etholiad nes bydd y gorsafoedd pleidleisio wedi cau.

**Tra bod y gorsafoedd pleidleisio ar agor, mae'n drosedd cyhoeddi unrhyw beth am y ffordd y mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiad hwnnw, yn seiliedig ar wybodaeth gan neu a gymerwyd gan bleidleiswyr ar ôl iddynt bleidleisio.**

## 9 Cwynion

Ymdrinnir â chwynion ar y lefel briodol - o olygyddion rhaglenni ac uwch. Y nod, p'un ai a yw'r gŵyn wedi dod drwy Wasanaethau Cynulleidfa'r BBC, yn uniongyrchol at raglen neu at ohebydd neu newyddiadurwr unigol, oddi wrth wleidydd neu aelod o'r cyhoedd (a allai fod yn weithredwr gwleidyddol neu beidio), o uwch swyddog yn y blaid neu ymgeisydd unigol, yw sicrhau bod ymateb y BBC yn gyson, yn gadarn ac yn gyflym.

Am y rheswm hwnnw, wrth dderbyn cwyn ffurfiol, fel arfer, dylid cymryd y manylion a'u cyfeirio at y person priodol (y golygydd perthnasol fel arfer) cyn i unrhyw ymateb cychwynnol – ar wahân i gydnabyddiaeth a'r amserlen – gael ei roi i'r sawl sy'n cwyno.

Gall cwynion ynglŷn â'r etholiad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â didueddrwydd a chywirdeb, fod yn destun proses gyflymach a allai ddod i benllanw drwy Ofcom.

**Dylai unrhyw un sydd angen cyngor pellach ynglŷn â defnyddio'r Canllawiau hyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.**

**Ric Bailey**

**Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth**

**E-bost: ric.bailey@bbc.co.uk**

<u>**Atodiadau – Canllawiau ar Roi Sylw i Bleidiau ac Ymgeiswyr**</u>

**Mae pob adran yn benodol i allbwn yn y genedl neu'r rhanbarth perthnasol - mae pob adran yn berthnasol i'r holl allbwn ledled y DU, ac eithrio lle nodir hynny.**


**Atodiadau – Canllawiau ar Roi Sylw i Bleidiau ac Ymgeiswyr ................. 19**
**A1. Cyflwyniad ..................................................................... 20**
A1ii OFCOM ..................................................................... 20
**Atodiad 2. Yr Alban ..................................................................... 22**
A2.1 Sylw ..................................................................... 22
A2.2 Pleidiau Mwy yn yr Alban ..................................................................... 22
A2.3 Pleidiau Llai yn yr Alban ..................................................................... 22
A2.4 Ymgeiswyr Annibynnol ..................................................................... 23
A2.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol yn yr Alban – gweler crynodeb Ofcom ..................................................................... 23
**Atodiad 3 Cymru ..................................................................... 24**
A3.1 Sylw ..................................................................... 24
A3.2 Pleidiau Mwy yng Nghymru ..................................................................... 24
A3.3 Pleidiau Llai yng Nghymru ..................................................................... 24
A3.4 Ymgeiswyr Annibynnol ..................................................................... 25
A3.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol yng Nghymru – gweler crynodeb Ofcom . ..................................................................... 26
**Atodiad 4. Llundain ..................................................................... 26**
A4.1 Sylw ..................................................................... 26
A4.2 Pleidiau Mwy yn Llundain ..................................................................... 26
A4.3 Pleidiau Llai yn Llundain ..................................................................... 26
A4.4 Ymgeiswyr Annibynnol ..................................................................... 27
A4.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol yn Awdurdod Llundain Fwyaf – gweler crynodeb Ofcom. ..................................................................... 28
**Atodiad 5 ..................................................................... 28**
A5.1 Sylw ..................................................................... 28
A5.2 Pleidiau Mwy yn Lloegr ..................................................................... 29
A5.3 Pleidiau Llai yn Lloegr ..................................................................... 29
A5.4 Ymgeiswyr Annibynnol ..................................................................... 30
A5.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr – gweler crynodeb Ofcom ..................................................................... 30
**Atodiad 6 ..................................................................... 30**
A6.1 Sylw ..................................................................... 30
A6.2 Pleidiau ac Ymgeiswyr ..................................................................... 31
A6.3 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol mewn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr - gweler crynodeb Ofcom .. 32
***Atodiad 7 ..................................................................... 32**

## A1. Cyflwyniad

Mae penderfynu ar lefelau priodol o sylw i wahanol ymgeiswyr mewn etholiadau, sydd â lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn gofyn yn bennaf am grebwyll golygyddol da a diduedd. Bydd gwahaniaethau dilys o ran dehongli a chymhwyso ar gyfer rhaglenni a fformatau gwahanol. Nod y canllawiau canlynol yw sicrhau bod lefelau priodol o sylw, gyda pheth lefel isafswm ar gyfer pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol - nid yw'n gosod unrhyw uchafswm. Mae cyngor ar gael, fesul achos, oddi wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, cyn ac yn ystod yr ymgyrch.

Felly er bod yn rhaid i bob gwasanaeth sicrhau bod y sylw a roddir yn gymesur o ran y pleidiau a'r ymgeiswyr, dylid trin hynny fel canllaw yn hytrach na fformiwla fathemategol benodol. Serch hynny, mae'n rhaid cael rhesymau golygyddol da dros unrhyw amrywiad sylweddol ac ni all y rhain ddisodli'r prif rwymedigaeth am ddidueddrwydd a thegwch dyladwy.

Dylai maint cymharol y sylw a roddir i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol ym mhob ardal etholiadol (er enghraifft, ar draws cenedl neu o fewn etholaeth unigol) adlewyrchu lefelau cefnogaeth etholiadol y gorffennol a / neu'r presennol yn yr ardal etholiadol honno. Wrth ystyried hyn, gan gofio lleoliad y gynulleidfa a fwriadwyd, er bod perfformiad yn yr etholiad cyfatebol diwethaf (h.y. etholiadau lleol Lloegr 2019 a 2018, etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf a Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2016 a 2012 ac Etholiadau Senedd yr Alban ac Etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru yn 2016 a 2011) a chynrychiolaeth a chyfran y bleidlais yn cael eu defnyddio fel man cychwyn, rhaid rhoi pwys dyladwy i'r ffactorau canlynol hefyd:

- perfformiad mewn etholiadau dilynol, lle bo'n berthnasol
- tystiolaeth berthnasol arall o gefnogaeth etholiadol gyfredol, gan gynnwys patrymau cadarn mewn polau piniwn
- nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid yn yr etholiad
- materion golygyddol perthnasol eraill, fel cytundebau etholiadol, pleidiau newydd, cytundebau clymblaid etc.

**Bydd y Canllawiau hyn yn parhau i allu cael eu diwygio oherwydd unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd o gefnogaeth wleidyddol gyfredol tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau.**

A1ii OFCOM

Mae'r Atodiad hwn yn amodol ar Adran 6 o God Ofcom (diweddarwyd ym mis Ionawr 2019, ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r Canllawiau cysylltiedig (22ain Mawrth 2017) a thystiolaeth berthnasol o gefnogaeth etholiadol fel y nodir yng Nghrynodeb Ofcom.
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-six-elections-referendums

Mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth i’r ffactorau canlynol wrth ystyried cwynion sy’n ymwneud â’r etholiad, ac o’r herwydd, mae’r canllawiau yn ddefnyddiol i wneuthurwyr rhaglenni wrth wneud penderfyniadau golygyddol ar gefnogaeth etholiadol y pleidiau:

• *“rydym yn rhoi mwy o bwys ar berfformiad gwirioneddol plaid wleidyddol mewn etholiadau yn hytrach na data polau piniwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod perfformiad etholiadol yn ffon fesur o sut mae pleidleiswyr wedi arfer eu dewis democrataidd mewn gwirionedd. Mae hyn yn cymharu â'r ansicrwydd amlycach sy'n gysylltiedig â chefnogaeth mewn polau piniwn, na fydd o bosib yn trosi'n bleidleisiau neu'n seddi mewn etholiad;*

• *wrth ystyried cefnogaeth etholiadol flaenorol, rydym yn ystyried ffactorau fel perfformiad etholiadol pleidiau (gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr etholedig a chanran gyffredinol y bleidlais a dderbyniwyd) yn y set flaenorol o etholiadau cyfatebol dros o leiaf dau gylch etholiadol;*

• *rydym hefyd yn ystyried perfformiad mewn etholiadau perthnasol blaenorol eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd, yn ogystal â pherfformiad mewn etholiadau blaenorol nad ydynt yn cael eu herio ar amser penodol;*

• *rydym yn ystyried perfformiad etholiadol pleidiau yn ystod dau gylch etholiadol o leiaf wrth ystyried perfformiad mewn unrhyw fath penodol o etholiadau. Serch hynny, rydym yn rhoi llai o bwys ar dystiolaeth perfformiad etholiadol dau gylch etholiadol neu fwy yn ôl o ystyried natur hanesyddol y dystiolaeth hon;*

• *lle bo’n berthnasol, rydym yn ystyried tystiolaeth mewn perthynas â chenhedloedd datganoledig gwahanol y DU;*

• *wrth roi llai o bwys ar lefelau cefnogaeth gyfredol yn hytrach na pherfformiad gwirioneddol, rydym yn rhoi pwys ar dystiolaeth o’r gefnogaeth gyfredol sy'n wrthrychol ac yn fesuradwy. Un math o dystiolaeth wrthrychol a mesuradwy o gefnogaeth gyfredol yw data pôl piniwn, lle bo ar gael. Efallai bod mathau eraill o dystiolaeth o gefnogaeth gyfredol ond wrth ystyried tystiolaeth o'r fath byddem yn ystyried cysondeb a gwrthrychedd pob math o dystiolaeth;*

• *ein bwriad yw wastad cynnal asesiad cytbwys drwy ystyried cyfanswm y dystiolaeth berthnasol.”*

**Atodiad 2. Yr Alban**

Sylwer: Mae Cyfnod Etholiad yr Alban yn dechrau ddydd Mercher 24ain Mawrth (am 00.01) – cyn Cyfnod Etholiad rhai etholiadau eraill ym Mhrydain Fawr ar 6ed Mai.

A2.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i gynnwys y bwriedir ei ddarlledu yn yr Alban (gan gynnwys deunydd DU gyfan a deunydd ar-lein) lle rhoddir sylw i etholiadau Senedd yr Alban: drwyddi draw, etholaeth neu ranbarth unigol, neu grŵp o etholaethau neu ranbarthau.

Dylai rhaglenni newyddion rhwydwaith priodol* (DU gyfan) roi ystyriaeth i bwysigrwydd etholiad Senedd yr Alban, yn enwedig i'w cynulleidfaoedd yn yr Alban o'i gymharu ag etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd
*gweler Atodiad 7

A2.2 Pleidiau Mwy yn yr Alban

Pleidiau sydd wedi ennill cynrychiolaeth sylweddol ar draws yr Alban yn etholiad y Senedd yn 2016 ac mewn etholiadau ar ôl hynny yn yr Alban:

Plaid Genedlaethol yr Alban, y Ceidwadwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Werdd yr Alban.

Yn fras, dylai'r pleidiau hyn dderbyn lefelau tebyg o ran sylw.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys roi ystyriaeth i ba feysydd polisi sydd wedi'u datganoli ac sydd yng ngofal Senedd yr Alban, ac sydd felly, o ddiddordeb uniongyrchol i'r etholiad hwn.

A2.3 Pleidiau Llai yn yr Alban

Dylai unrhyw blaid sy'n sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o gyfanswm y seddi i'w hethol yn yr Alban (h.y. 22 o seddi etholaeth) neu'n cyflwyno o leiaf 4 o ymgeiswyr ym mhob un o'r 8 rhestr rhanbarthol gael sylw, fan lleiaf, adeg lansiad eu maniffesto (neu ddigwyddiad cyfatebol) gan Reporting Scotland ac An Là ar deledu a Good Morning Scotland ac Aithris an Fheasgair ar radio, yn ogystal ag ar-lein.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol i Bleidiau Llai, yn ogystal ag ystyried sut pleidleisiodd yr etholwyr yn y ddau etholiad seneddol diwethaf yn yr Alban ac mewn gwahanol etholiadau ar ôl hynny, dylem hefyd nodi'r dystiolaeth gyfredol, fel tuedd gyson mewn polau piniwn.

Yn ogystal, efallai y bydd amgylchiadau – er enghraifft – yng nghyd-destun posib "adeiladu clymblaid" – sy'n golygu ei bod yn briodol yn olygyddol i unrhyw un neu fwy o'r Pleidiau Llai dderbyn sylw ychwanegol. Gellir hefyd

ystyried newidiadau eraill mewn amgylchiadau gwleidyddol perthnasol ers 2011.

Dylai’r egwyddorion sy’n gymwys i’r sylw a roddir i Bleidiau Llai ar lefel yr Alban gyfan gael eu defnyddio hefyd mewn unrhyw eitemau ar raglenni sy'n seiliedig ar ranbarth penodol a defnyddio ymgeiswyr rhestr. Gall cryfderau cymharol y pleidiau amrywio o ranbarth i ranbarth, ac unwaith eto, gellir gofyn am gyngor y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, a fydd yn gweithio gyda BBC Scotland i helpu i wneud y penderfyniadau hyn.

Cyfeirir y gynulleidfa, lle bo’n briodol, at y rhestr gyflawn o bleidiau sy’n sefyll ar BBC News Online Scotland.

A2.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Bydd yr holl adroddiadau etholaethol neu ranbarthol yn cyfeirio at y rhestr ar-lein, lle bydd yr holl ymgeiswyr annibynnol yn cael eu cynnwys. Y cyfeiriad hwn yw’r isafswm ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, a lle bo tystiolaeth gyfredol briodol, neu gyfiawnhad golygyddol, gall unrhyw un neu fwy o ymgeiswyr annibynnol gael sylw ychwanegol.

Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw ymgeiswyr sydd â phroffil personol sy’n denu sylw’r newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais sylweddol iddynt ar draul ymgeiswyr eraill yn yr un etholaeth neu ranbarth.

Dylai allbwn perthnasol roi ystyriaeth i’r cyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bo ymgeisydd annibynnol yn ymuno â phlaid wleidyddol, neu lle bo grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn gweithredu gyda’i gilydd, p'un ai ar faniffesto cyffredin ai peidio; yr amcan fydd sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybodaeth glir a chywir a bod y pwys dyladwy yn cael ei roi ar y gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Gellir cael cyngor pellach am y sylw a roddir i’r pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

A2.5 Cyd-destun y gefnogaeth etholiadol yn yr Alban (gweler crynodeb Ofcom)
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

## Atodiad 3 Cymru

Mae cyfnod yr etholiad yng Nghymru yn dechrau am 00.01 ddydd Llun 29ain Mawrth.

### A3.1 Sylw

Mae’r Atodiad hwn yn berthnasol i gynnwys y bwriedir ei ddarlledu yng Nghymru (gan gynnwys deunydd DU gyfan a deunydd ar-lein) lle rhoddir sylw i etholiad Senedd Cymru: drwyddi draw, etholaeth neu ranbarth unigol, neu grŵp o etholaethau neu ranbarthau.

Dylai rhaglenni newyddion rhwydwaith priodol* (DU gyfan) roi ystyriaeth i bwysigrwydd etholiad Senedd Cymru, yn enwedig i’w cynulleidfaoedd yng Nghymru o’i gymharu ag etholiadau eraill sy’n cael eu cynnal ar yr un pryd
*gweler Atodiad 7

### A3.2 Pleidiau Mwy yng Nghymru

O ystyried canlyniadau etholiadau’r Cynulliad yng Nghymru yn 2016 (a 2011) a newidiadau i’r gefnogaeth etholiadol mewn etholiadau ar ôl hynny yng Nghymru, yn ogystal â newidiadau mewn cynrychiolaeth ac yng nghyfansoddiad rhai pleidiau, dylai'r pleidiau canlynol dderbyn lefelau tebyg o ran sylw:

Llafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys roi ystyriaeth i ba feysydd polisi sydd wedi’u datganoli ac sydd yng ngofal Senedd Cymru, ac sydd felly, o ddiddordeb uniongyrchol i’r etholiad hwn.

### A3.3 Pleidiau Llai yng Nghymru

Wrth benderfynu faint o sylw sy’n briodol ar gyfer pob un o’r Pleidiau Llai, dylem ystyried sut gwaeth etholwyr bleidleisio yn etholiadau 2016 a 2011 ac mewn etholiadau gwahanol ar ôl hynny, a dylent hefyd nodi'r dystiolaeth gyfredol, fel tuedd gyson mewn polau piniwn, yn ogystal ag ymgeisyddiaeth a chynrychiolaeth gyfredol.

O ystyried y ffactorau hyn, gall UKIP, Plaid Brexit ac Abolish the Welsh Assembly Party dderbyn rhywfaint o sylw sy’n gymesur â’r pleidiau mwy.

Yn ogystal, efallai y bydd amgylchiadau – er enghraifft – yng nghyd-destun posib “adeiladu clymblaid” – sy'n golygu ei bod yn briodol yn olygyddol i unrhyw un neu fwy o’r Pleidiau Llai dderbyn sylw ychwanegol. Gellir hefyd

ystyried newidiadau eraill mewn amgylchiadau gwleidyddol perthnasol ers 2016.

Dylai unrhyw blaid sy’n sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o gyfanswm y seddi i'w hethol yng Nghymru (h.y. deg o seddi etholaeth) neu’n cyflwyno o leiaf 4 o ymgeiswyr ym mhob un o’r 5 rhestr rhanbarthol gael sylw, fan lleiaf, adeg lansiad eu maniffesto ar Wales Today a Newyddion ar deledu a Radio Wales Breakfast with Claire Summers a Dros Frecwast ar radio, yn ogystal ag ar-lein.

Os bydd rhaglenni eraill yn dewis rhoi sylw i blaid lai, mae’n rhaid iddynt fod yn gyson a thrin yr holl bleidiau eraill sy’n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur.

Dylai’r egwyddorion sy’n gymwys i’r sylw a roddir i Bleidiau Llai ar lefel Cymru gyfan gael eu cymhwyso hefyd mewn unrhyw eitemau ar raglenni sy'n seiliedig ar ranbarth penodol a defnyddio ymgeiswyr rhestr. Gall cryfderau cymharol y pleidiau amrywio o ranbarth i ranbarth, ac unwaith eto, gellir gofyn am gyngor y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, a fydd yn gweithio gyda BBC Cymru i helpu i wneud y penderfyniadau hyn.

Cyfeirir y gynulleidfa, lle bo’n briodol, at y rhestr gyflawn o bleidiau sy’n sefyll ar BBC Wales News Online a BBC Cymru Fyw.

### A3.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Bydd holl adroddiadau etholaethol neu ranbarthol yn cyfeirio at y rhestr ar-lein, lle bydd yr holl ymgeiswyr annibynnol yn cael eu cynnwys. Y cyfeiriad hwn yw’r isafswm ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, a lle bo tystiolaeth gyfredol briodol, gall unrhyw un neu fwy o ymgeiswyr Annibynnol gael sylw ychwanegol.

Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw ymgeiswyr o'r fath sydd â phroffil personol sy'n denu sylw’r newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais sylweddol iddynt dros ymgeiswyr eraill yn yr un etholaeth neu ranbarth.

Dylai allbwn perthnasol roi ystyriaeth i’r cyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bo ymgeisydd annibynnol yn ymuno â phlaid wleidyddol, neu lle bo grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn gweithredu gyda’i gilydd, p'un ai ar faniffesto cyffredin ai peidio; yr amcan fydd sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybodaeth glir a chywir a bod y pwys dyladwy yn cael ei roi ar y gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Gellir cael cyngor pellach am y sylw a roddir i’r pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

A3.5 Cyd-destun y gefnogaeth etholiadol yng Nghymru (gweler crynodeb Ofcom)

.
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

**Atodiad 4. Llundain**

Sylwer: Mae Cyfnod yr Etholiad yn Llundain yn dechrau ar 21ain Mawrth – cyn Cyfnod Etholiad yr holl etholiadau eraill yn y DU ar 6ed Mai.

A4.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i gynnwys y bwriedir ei ddarlledu yn Llundain (gan gynnwys deunydd DU gyfan a deunydd ar-lein) lle rhoddir sylw i etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf: naill ai etholiad Maer Llundain neu etholiadau Cynulliad Llundain - drwyddi draw neu fel etholaeth unigol neu grŵp o etholaethau.

A4.2 Pleidiau Mwy yn Llundain

Y pleidiau a gafodd y lefelau uchaf o gefnogaeth etholiadol yn etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf 2016 a 2012 oedd y Ceidwadwyr a Llafur.

O ystyried lefelau'r gefnogaeth etholiadol yn 2016 ac yn ystod cyfres o wahanol fathau o etholiadau, dylai'r ddwy blaid hyn dderbyn, yn fras, lefelau tebyg o sylw lle mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf 2021.

Y pleidiau eraill a gafodd lefelau sylweddol o gefnogaeth etholiadol yn etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf yn 2016 a 2012 oedd y Blaid Werdd a'r Democratiaid Rhyddfrydol. O ystyried lefelau cefnogaeth etholiadol y ddwy blaid yn 2016 ac yn ystod cyfres o wahanol fathau o etholiadau, dylai'r ddwy blaid hyn dderbyn, yn fras, lefelau tebyg o sylw lle mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf 2021.

Mewn rhai rhaglenni a fformatau, gallai'r bedair plaid dderbyn lefelau tebyg o sylw. Mae hyn yn cynnwys dadleuon, eitemau sy'n manylu ar bolisïau unigryw yn ogystal â chyfres o gyfweliadau gydag ymgeiswyr Maer Llundain neu uwch ffigurau neu ymgeiswyr eraill y pleidiau.

A4.3 Pleidiau Llai yn Llundain

Wrth benderfynu faint o sylw sy'n briodol ar gyfer pob un o'r Pleidiau Llai, dylem ystyried sut gwaeth etholwyr bleidleisio yn etholiadau 2016 a 2012 ac mewn etholiadau gwahanol ar ôl hynny, a dylid hefyd nodi'r dystiolaeth

gyfredol, fel tuedd gyson mewn polau piniwn, yn ogystal ag ymgeisyddiaeth ac amgylchiadau gwleidyddol sydd wedi newid.

O ystyried y ffactorau hyn, gall UKIP a'r Blaid Brexit dderbyn rhywfaint o sylw sy'n gymesur i'r pleidiau mwy.

Dylai'r pleidiau eraill sydd ag :

- ymgeisydd yn sefyll yn Etholiad Maer Llundain

a

naill ai

- ymgeiswyr sy'n sefyll ym mhob etholaeth yn Llundain

neu

- llechen lawn o ymgeiswyr yn sefyll yn y rhestr atodol ar gyfer Cynulliad Llundain

weld lansiad eu maniffesto/ymgyrch etholiadol (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar BBC London ar deledu ac ar radio ac ar-lein.

Pan fydd y pleidiau mwy yn ymddangos yn rheolaidd, dylai'r pleidiau eraill hyn gael sylw cymesur.

Gellir rhoi'r un lefel isaf o sylw i ymgeiswyr Maer Llundain nad ydynt yn cynrychioli plaid sydd â llechen lawn o ymgeiswyr yn y naill ran neu'r llall o etholiadau Cynulliad Llundain, neu bleidiau sydd â digon o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Cynulliad Llundain, ond heb ymgeisydd Maer Llundain os oes tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol neu gyfiawnhad golygyddol priodol. Dylid ystyried lefelau ychwanegol o sylw pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle gallai fod gan bleidiau llai safbwynt unigryw.

Cyfeirir y gynulleidfa, lle bo'n briodol a fan lleiaf, at y rhestr gyflawn o'r pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n sefyll ar BBC News Online.

## A4.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Bydd lefelau'r sylw ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, naill ai yn etholiad y Maer neu etholiad Cynulliad Llundain, yn dibynnu ar dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol, yn ogystal ag amgylchiadau gwleidyddol a chrebwyll golygyddol.

Wrth benderfynu faint o sylw sy'n briodol i ymgeiswyr annibynnol, yn ogystal ag ystyried sut y pleidleisiodd etholwyr yn etholiadau 2016 ac mewn etholiadau gwahanol ar ôl hynny, dylai meysydd allbwn hefyd roi ystyriaeth i dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol, fel unrhyw duedd gyson mewn polau piniwn yn ogystal ag amgylchiadau gwleidyddol sydd wedi newid.

Gellir rhoi'r un lefel isaf o sylw i ymgeiswyr annibynnol am etholiadau'r Maer â phleidiau gwleidyddol cymwys, os oes tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol

flaenorol a/neu gyfredol neu gyfiawnhad golygyddol priodol. Dylid ystyried lefelau ychwanegol o ran sylw pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle gallai fod gan ymgeiswyr annibynnol safbwynt unigryw.

Dylai allbwn perthnasol roi ystyriaeth i'r cyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bo ymgeisydd annibynnol yn ymuno â phlaid wleidyddol, neu lle bo grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn gweithredu gyda'i gilydd, p'un ai ar faniffesto cyffredin ai peidio; yr amcan fydd sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybodaeth glir a chywir a bod y pwys dyladwy yn cael ei roi ar y gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw ymgeiswyr sydd â phroffil personol sy'n denu sylw'r newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais annheg iddynt.

A4.5 Cyd-destun y gefnogaeth etholiadol yn Awdurdod Llundain Fwyaf (gweler crynodeb Ofcom)

.
[https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf](https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf)

## Atodiad 5

**Llywodraeth Leol mewn rhannau o Loegr (y tu allan i Lundain).**

- 21 o Gynghorau Sir
- 35 o Fwrdeistrefi Metropolitanaidd
- 28 o Gynghorau Unedol
- 59 o Gynghorau Dosbarth

(tua. 4,650 o seddi)

Yn ogystal â:

- 7 o Feiri Awdurdodau Cyfun
- 5 o Feiri Awdurdodau Unigol

A5.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i gynnwys y bwriedir ei ddarlledu lle bo etholiadau yn cael eu cynnal yn Lloegr (gan gynnwys deunydd DU gyfan a deunydd ar-lein) lle rhoddir sylw i etholiadau llywodraeth leol Lloegr: drwyddi draw, cyngor neu ward unigol neu grŵp o gynghorau neu wardiau.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys gymryd gofal i wneud yn siŵr nad yw'r sylw a roddir i etholiadau llywodraeth leol yn annheg i ymgeiswyr yn etholiadau'r

Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (gweler Atodiad 6): rhaid cael diduеddrwydd dyladwy yn y ddau etholiad.

A5.2 Pleidiau Mwy yn Lloegr

Y pleidiau sydd â lefelau sylweddol o gefnogaeth etholiadol ar lefel llywodraeth leol yn Lloegr yw:

Ceidwadwyr, Llafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol.

Gan roi ystyriaeth i hyn a lefelau’r gefnogaeth etholiadol ar draws cyfres o wahanol fathau o etholiadau, dylai’r pleidiau hyn, yn fras, dderbyn yr un lefel o sylw lle mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr.

A5.3 Pleidiau Llai yn Lloegr

Wrth benderfynu faint o sylw sy’n briodol ar gyfer pob un o’r Pleidiau Llai, yn ogystal ag ystyried sut y pleidleisiodd etholwyr mewn etholiadau cyfwerth yn y gorffennol ac mewn etholiadau gwahanol ar ôl hynny, dylem hefyd ystyried y dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol, fel tuedd gyson a chadarn mewn polau piniwn, yn ogystal ag amgylchiadau gwleidyddol perthnasol a lefelau ymgeisyddiaeth. Dylid ystyried sylw ychwanegol pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle mae gan bleidiau llai safbwynt unigryw.

Fel arfer, bydd y Blaid Werdd, wrth brofi rhywfaint o gefnogaeth etholiadol mewn etholiadau lleol, fel arfer, yn derbyn sylw sy’n gymesur i’r pleidiau mwy ac yn fwy na'r pleidiau hynny sydd â llai o dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol flaenorol neu gyfredol neu â llai o ymgeiswyr.

Dylai’r holl bleidiau sy’n sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o gyfanswm y seddi sydd ar gael yn Lloegr (h.y. tua 775 o ymgeiswyr mewn 4650 o seddi) gael – fan lleiaf - lansiad eu maniffesto (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar raglenni newyddion teledu a radio y rhwydwaith priodol* ac ar-lein.

Os oes rhaglenni eraill am roi sylw i’r etholiadau, mae’n rhaid iddynt fod yn gyson a thrin y pleidiau sy’n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur. Dylai rhaglenni lleol a rhanbarthol sy’n rhoi sylw i’r etholiadau roi ystyriaeth i unrhyw batrymau gwahanol i’r gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol yn eu hardal.

Yn ogystal, bydd amgylchiadau lle ceir posibilrwydd o Heb Reolaeth Mwyafrif o fewn cyngor, sy'n golygu y bydd yn briodol yn olygyddol i unrhyw un neu fwy o'r pleidiau llai gael mwy o sylw, er enghraifft, yng nghyd-destun “adeiladu clymblaid”.

A5.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Mae ymgeiswyr annibynnol yn denu lefelau sylweddol o gefnogaeth mewn nifer o etholiadau lleol, a bydd y gynulleidfa'n disgwyl i hynny gael ei adlewyrchu yn y cynnwys perthnasol. Dylid rhoi sylw cymesur i ymgeiswyr annibynnol (hyd at lefelau tebyg i'r pleidiau mwy mewn rhai wardiau neu gynghorau), lle maent wedi dangos:

- cefnogaeth etholiadol sylweddol yn y gorffennol (e.e. deiliaid)
- ceir tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol sylweddol ar hyn o bryd.

Yn ogystal, bydd amgylchiadau lle ceir posibilrwydd o Heb Reolaeth Mwyafrif o fewn cyngor, sy'n golygu y bydd yn briodol yn olygyddol i unrhyw un neu fwy o'r pleidiau llai gael mwy o sylw, er enghraifft, yng nghyd-destun "adeiladu clymblaid".

Dylai allbwn perthnasol roi ystyriaeth hefyd i'r cyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bo ymgeisydd annibynnol yn ymuno â phlaid wleidyddol, neu lle bo grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn gweithredu gyda'i gilydd, p'un ai ar faniffesto cyffredin ai peidio; yr amcan fydd sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybodaeth glir a chywir a bod y pwys dyladwy yn cael ei roi ar y gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

A5.5 Cyd-destun y gefnogaeth etholiadol mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr - gweler crynodeb Ofcom.

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

Gellir cael cyngor pellach am y sylw a roddir i bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

## Atodiad 6

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr – y tu allan i Lundain a Manceinion)**

A6.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i gynnwys y bwriedir ei ddarlledu yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys deunydd y DU gyfan a deunydd ar-lein) lle rhoddir unrhyw sylw i etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu: drwyddi draw, ardal heddlu unigol neu grŵp o ardaloedd yr heddlu.

A6.2 Pleidiau ac Ymgeiswyr

Y dystiolaeth o etholiadau blaenorol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw nad ydynt o reidrwydd yn cael eu hymladd yn yr un ffordd ag etholiadau eraill. Nid yw pob plaid wleidyddol wedi mynd ati yn yr un ffordd (roedd rhai yn sefyll llai neu ddim ymgeiswyr) ac roedd ymgeiswyr annibynnol yn amlwg ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol. Roedd y blaendal uchel yn cyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr. Ni chynhyrchodd pob plaid faniffestos cenedlaethol.

Wrth asesu gwahanol lefelau o sylw rhwng ymgeiswyr, felly, mae'r pwys a roddir i wahanol fathau o etholiadau ar ôl hynny yn yr un ardaloedd yn debygol o fod yn brin. Yn yr un modd, i'r graddau y mae tystiolaeth o “gefnogaeth etholiadol gyfredol” yn gorwedd mewn polau piniwn yn bennaf, mae'r rhain yn debygol o fod o ddefnydd cyfyngedig ar gyfer ardaloedd unigol yr heddlu.

Ym mhob ardal, felly, bydd cynhyrchwyr cynnwys yn rhoi ystyriaeth i “gefnogaeth etholiadol flaenorol” – h.y. pan gynhaliwyd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ddiwethaf a phwy oedd yn sefyll ynddynt. Ond byddant hefyd yn ystyried natur etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, nifer yr ymgeiswyr a’r patrymau gwahanol o gefnogaeth etholiadol, er enghraifft, rhwng ymgeiswyr y pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol (am y rheswm hwnnw, nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr y pleidiau a’r ymgeiswyr annibynnol).

Gall cynhyrchwyr cynnwys ystyried tystiolaeth gadarn a gwrthrychol o “gefnogaeth etholiadol gyfredol” ac o unrhyw amgylchiadau gwleidyddol perthnasol wrth lunio barn am lefelau cymharol o sylw. Gallai'r math o amgylchiadau lle gallai ymgeiswyr gael llai o sylw (mewn eitem am ardal heddlu unigol) fod, er enghraifft, lle nad ydyn nhw wedi lansio maniffesto lleol neu heb nodi polisïau yn benodol ar faterion heddlu a throseddu, neu lle maen nhw’n ymgyrchu, er enghraifft, ar un mater, neu'n bwriadu denu sylw at achos penodol neu fenter fasnachol, yn hytrach na bwriad go iawn o gael eu hethol. Serch hynny, dylai hwn fod yn brawf cadarn; mae cyngor penodol ar gael oddi wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Fel arall, gall ymgeiswyr yn yr un “etholaeth” – neu ardal yr heddlu – fel arfer ddisgwyl sylw tebyg i’w gilydd (ddim union yr un peth o reidrwydd) ar draws cyfnod yr etholiad drwyddi draw mewn eitemau am yr ardal heddlu honno.

Rhaid i orsafoedd neu raglenni rhanbarthol a lleol sy’n cwmpasu mwy nag un o ardaloedd yr heddlu sicrhau didueddrwydd dyladwy (h.y. cymryd gofal bod y sylw a roddir i bleidiau neu ymgeiswyr mewn un ardal ddim yn creu annhegwch tuag at bleidiau neu ymgeiswyr mewn etholiad arall o fewn yr un ardal ddarlledu).

Dylai cynhyrchwyr cynnwys gymryd gofal hefyd i sicrhau nad yw’r sylw a roddir i etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn achosi unrhyw annhegwch i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol (gweler uchod): rhaid cael didueddrwydd dyladwy yn y ddau etholiad.

Rhaid i raglenni rhwydwaith sy’n cynnwys eitemau sy’n ymdrin ag etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gyffredinol fod yn ofalus wrth sicrhau nad yw cynnwys cyfranwyr o bleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn nifer neu'r holl etholaethau yn achosi annhegwch i ymgeiswyr eraill (e.e. ymgeiswyr annibynnol) sy’n sefyll fel unigolion mewn etholaeth.

Serch hynny, ar draws etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn Lloegr, derbyniodd Llafur a’r Ceidwadwyr gefnogaeth etholiadol sylweddol; at hynny, yng Nghymru, derbyniodd Plaid Cymru gefnogaeth etholiadol sylweddol. Efallai ei fod yn briodol i’r pleidiau hyn dderbyn mwy o sylw yn gyffredinol yn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar draws Cymru a/neu Loegr.

Fel arfer, dylai didueddrwydd dyladwy, ym mhob un o etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gael ei gyflawni ym mhob rhaglen neu ar draws cyfres o raglenni. Gellir gwneud hynny ar draws yr arlwy cyfan ar sianel neu orsaf, ond yna mae'n rhaid rhoi arwyddion clir ac amlwg, cyfeiriadau priodol at y manylion llawn ar y wefan a rhoi sylw dyladwy i sicrhau tegwch (er enghraifft, amserlennu cyfweliadau yn briodol ar wahanol adegau o'r dydd).

A6.3 Cyd-destun y gefnogaeth etholiadol yn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr - gweler crynodeb Ofcom.

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/213992/electoral-digest-local-elections.pdf

***Atodiad 7** Mae’r **“rhaglenni rhwydwaith priodol”** yn yr atodiadau uchod yn cyfeirio at:

- o leiaf dau o’r prif fwletinau ar BBC One (h.y. Un, Chwech, Deg)
- News Channel, gan gynnwys News at Five
- Radio 4 1800
- 5 Live Drive
  BBC Online
- Crynodebau Radio 2
- Newsbeat